| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **DYDDIAD** | **13 Hydref 2022** |
| **TEITL** | **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau ( Cymru) 2021** |
| **Amcan** | **Diweddaru y Pwyllgor ar y cynnydd yn y rhaglen waith.** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Swyddog Monitro** |

**1. Rhagarweiniad**

Rwyf wedi adrodd ar y rhaglen waith gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiad( Cymru) 2021 wrth i'r Deddf ddod yn weithredol. Roedd nifer o gamau gweithredu yn deillio o ddarpariaethau'r Ddeddf. Yn dilyn Cydsyniad Brenhinol daeth y darpariaethau i rym drwodd i 2022. Bellach gyda rhai eithriadau mae'r darpariaethau mewn grym. Mae elfennau o Arweiniad Statudol i'w cyhoeddi eto ond ni ddisgwylir y byddai rhain yn gwyro yn arwyddocaol o'r drafftiau ymgynghori.

**2. Y Ddeddf**

Mae naw prif ran i'r Ddeddf sydd yn berthnasol i Brif Gynghorau Cynghorau Tref a Chymuned ac Awdurdodau eraill. Mae'n cynrychioli y Deddf Llywodraeth Leol fwyaf sylweddol ers bosib Deddf Llywodraeth Leol 2000 ddaeth ar drefn Cabinet a'r Fframwaith Foesegol i fodolaeth. Mae 9 rhan i'r Deddf ac mae'r Rhaglen Waith wedi dilyn y rhain fel fframwaith.

RHAN 1 - ETHOLIADAU
RHAN 2 – PŴER CYMHWYSEDD CYFFREDINOL I AWDURDODAU LLEOL
RHAN 3 - HYBU MYNEDIAD AT LYWODRAETH LEOL
RHAN 4 – GWEITHREDIAETHAU, AELODAU, SWYDDOGION A PHWYLLGORAU AWDURDODAU LLEOL
RHAN 5 – CYDWEITHIO GAN BRIF GYNGHORAU
RHAN 6 – PERFFORMIAD A LLYWODRAETHU PRIF GYNGHORAU
RHAN 7 – UNO AC AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD
RHAN 8 – CYLLID LLYWODRAETH LEOL
RHAN 9 – AMRYWIOL

Gellir darllen crynodeb o gynnwys y Ddeddf yn yr adroddiad i'r Cyngor ar y 4ydd o Fawrth 2021

Eitem 13 - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021.pdf

2. **Rhaglen Waith**

Mae'r Deddf eisoes wedi ei gosod o fewn y Gofrestr Risg Corfforaethol oherwydd ei arwyddocâd. Mae'r Rhaglen Waith ( Atodiad 1) yn ymwneud ag ystod o dasgau sydd yn bennaf ynglŷn a'r Gwasanaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae'r Rhaglen waith yn rhoi trosolwg a sicrwydd ar y gweithredu ac tu cefn i hyn mae gwaith cyson manwl yn parhau i ddod a'r darpariaethau yma yn weithredol. Rwyf wedi gweithio gyda Tim Prosiect ar y cyd i gynnal y gwaith. Ar y cyfan mae'r Rhaglen Waith wedi ei chyflawni . Gellir amlygu y prif faterion sydd angen eu symud i ganlyniad ac sydd a'g amserlen ar eu cyfer :

1. Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd
2. Cynllun Deisebau

3. Canllawiau Cyfansoddiad

Rydym hefyd yn prysur gwblhau y gwaith ar gyhoeddi y Cyfansoddiad yn sgil y newidiadau sydd wedi eu cymeradwyo.

**Penderfyniad a Geisir**

**Derbyn yr adroddiad a’r cynnydd a gofyn am adroddiad pellach i Bwyllgor Chwefror**